Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ymateb i ymgynghoriad: Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Enw Sefydliad: Senedd Cymru - y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynwyd: 18 Medi 2025

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.
Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Trosolwg

Croesawn yr ymgynghoriad hwn.

Nid oes amheuaeth nad yw rôl gofalwyr di-dâl yn hollbwysig o ran cefnogi gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel swyddfa, rydym yn awyddus i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u hysbysu'n briodol am eu hawliau. Felly, gwasanaethau cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl oedd ffocws ein hail ymchwiliad ehangach ar ei liwt ei hun, 'A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Cliciwch yma i ddarllen fersiwn lawn o'r adroddiad, ac yma i weld y fersiwn Hawdd ei Ddeall.

Nodwn gydnabyddiaeth y Pwyllgor fod y diffyg asesiadau gofalwyr a gynhelir eisoes wedi derbyn sylw sylweddol. O ddiddordeb ar hyn o bryd, hefyd, yw'r ddarpariaeth o gymorth statudol i ofalwyr di-dâl, a mynediad ato, yn enwedig y gofal seibiant sydd ar gael. Er hynny, bydd ansawdd y broses o weinyddu asesiadau gofalwyr yn ffactor annatod a fydd yn effeithio ar ba gymorth sydd ar gael i ofalwyr. Felly, teimlwn ei bod yn dal yn bwysig ailadrodd canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar ei liwt ei hun, mewn perthynas ag asesiadau gofalwyr. Ymatebwn i'r pum prif bwynt o ddiddordeb a nodwyd gan y Pwyllgor, isod.

## Cwmpas yr ymchwiliad

Ymgymerwn ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiant gwasanaeth systematig neu gamweinyddu. Mae ymchwiliadau ehangach ar ei liwt ei hun yn ymchwiliadau annibynnol nad ydynt yn ymwneud â chwyn a wneir gan unigolyn

Ystyriodd ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hun:

a) a oedd yr awdurdodau lleol yr ymchwiliwyd iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.

b) a oedd y rhai a oedd â hawl i asesiad o anghenion gofalwr yn cael gwybod am eu hawl i ofyn am asesiad o anghenion gofalwr, ac a oeddent yn deall yr hawl hon.

c) pan oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, a oedd y gwasanaethau asesu hynny'n cael eu darparu'n briodol ac a oedd awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau contractio yn briodol.

d) a oedd yr asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys y rhai a gwblhawyd gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd, yn cael eu cynnal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ystyriodd yr ymchwiliad arferion 4 awdurdod lleol ('yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt'):

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir y Fflint a
- Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

Nododd rhwng 10% a 12% o'r boblogaeth (dros 5 oed) yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt eu bod yn ofalwyr, yn ôl Cyfrifiad 5.

## Y canfyddiadau

Canfu'r ymchwiliad y canlynol:

- dim ond 2.8% o'r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt oedd wedi cael asesiad o'u hanghenion.
- dim ond 1.5% o'r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt oedd wedi cael asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth.
- nid oedd llawer o ofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac nid oeddent yn ymwybodol o'r gefnogaeth a allai fod ar gael iddynt. Roedd tystiolaeth nad

oedd gofalwyr yn cael gwybod yn llawn am eu hawliau gan yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd gofalwyr at ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd heb gael gwybod am eu hawliau.

- cyfeiriwyd at asesiadau o anghenion gofalwyr gan ddefnyddio enwau gwahanol, a oedd yn achosi dryswch ymhlith gofalwyr ac weithiau, nid oedd gofalwyr yn ymwybodol bod eu hanghenion wedi cael eu hasesu.
- roedd diffyg gwybodaeth glir am y broses asesu, am rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd (lle bo'n berthnasol), am yr hyn y gallai gofalwyr ei ddisgwyl gan yr asesiad ac am sut y gellir cefnogi gofalwyr yn dilyn asesiad.
- roedd anghysondebau rhwng yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn sut y cofnodwyd y gefnogaeth a ddarparwyd i ofalwyr. Yn yr asesiadau a adolygwyd, cofnododd Cyngor Sir y Fflint yr holl gefnogaeth a ddarparwyd yn dilyn asesiad, gan gynnwys pan oedd ond yn darparu 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth', fel Cynllun Cymorth, ond ni chofnododd yr Awdurdodau eraill yr ymchwiliwyd iddynt 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' fel Cynllun Cymorth.
- roedd gwedduster Taliadau Uniongyrchol i ofalwyr yn amrywiol ac roedd angen i 3 o'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn rhywbeth y gallai'r gofalwr ei reoli, gyda hyn yn cael ei adolygu pe bai amgylchiadau'n newid.
- roedd cofnodi data cydraddoldeb yn ymwneud â gofalwyr yn gyfyngedig ac yn anghyson yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt.

Lle y cawsant eu cynnal, gwelsom fod asesiadau o anghenion gofalwyr yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, at ei gilydd, yn cael eu cwblhau'n briodol, ac eithrio asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yng Ngheredigion a Chastell-nedd Port Talbot.

## Yr argymhellion

Gwnaethom nifer o argymhellion yn dilyn yr ymchwiliad hwn. Roedd y rhain oedd yn ymwneud â:

- gwelliannau i sut oedd yr asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cofnodi, ac i'r ffurflenni. Roedd angen cysondeb o ran yr iaith a ddefnyddir. Roedd angen canllawiau hefyd ar yr hyn a oedd yn Wybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r hyn a oedd yn Gynllun Cymorth, i sicrhau bod yr holl waith i gefnogi gofalwyr yn cael ei gofnodi ac i wella cysondeb y cofnodi. Gallai gwelliannau cofnodi eraill gynnwys cyfranogiad y person sy'n derbyn gofal (lle bo'n bosibl), i ba raddau yr oedd y gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu gofal a dymuniadau'r gofalwr o ran gwaith, addysg, hyfforddiant a hamdden.
- adolygu taflen ffeithiau yn ymwneud ag asesiad o anghenion gofalwyr, i gynnwys amlinelliad o'r broses, rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd, beth i'w ddisgwyl gan asesiad ac enghreifftiau bywyd go iawn o sut mae gofalwyr wedi cael eu cefnogi. Byddai hyn yn galluogi gofalwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch pa un ai i gael asesiad o'u hanghenion.
- llythyr eglurhaol i gyd-fynd ag asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u cwblhau, i amlinellu canlyniadau'r asesiad ac esboniad o beth oedd y trefniadau adolygu (neu beidio) a sut y gallai gofalwyr gysylltu i ofyn am adolygiad neu ailasesiad.
- gwelliannau i brosesau sicrwydd ansawdd ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr sydd wedi'u cwblhau, trwy weithredu archwiliadau rheolaidd.
- hyfforddiant i staff i adnewyddu eu gwybodaeth am hawliau gofalwyr ac i atgyfnerthu'r rôl y maent yn ei chwarae wrth nodi a hyrwyddo hawliau gofalwyr. Rhaid cynnig eiriolaeth i ofalwyr – nid penderfyniad i'r staff sy'n cwblhau asesiadau yw'r penderfyniad ynghylch a oes angen eiriolwr, ac nid oedd yn briodol i'r aelod staff ystyried ei hun yn eiriolwr ychwaith.
- camau i wella'r broses o gofnodi gwybodaeth am gydraddoldeb mewn perthynas â gofalwyr. Gallai dulliau gwell, mwy cyson a mwy cymharol o gasglu data alluogi dadansoddiad gwell i sbarduno gwelliant, monitro cynnydd a nodi meysydd lle'r oedd angen gwelliannau pellach.

- camau gweithredu i wella cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, ysbytai a fferyllfeydd.

Yn wyneb y potensial ar gyfer dysgu ehangach, gwnaethom wahodd y 18 awdurdod lleol arall yng Nghymru i:

- ystyried ein hargymhellion a wnaed i'r 4 Awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt a mabwysiadu unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella eu darpariaeth gwasanaeth eu hunain.
- adolygu canfyddiadau'r adroddiad hwn ar lefel Cymru gyfan, er enghraifft, yn Rhwydwaith Gwella a Dysgu Gofalwyr Cymru Gyfan, i drafod a chynllunio ar gyfer gwella asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, roeddem yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau gweithredu drwy ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

- **Y prif rwystrau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu wrth gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt; gan gynnwys unrhyw heriau penodol i ofalwyr yn seiliedig ar ffactorau fel oedran, ethnigrwydd neu ble maen nhw'n byw.**

  Mae canfyddiadau ein hymchwiliad yn awgrymu bod un o'r prif rwystrau'n ymwneud â lefel annigonol o ymwybyddiaeth o'r hawl i asesiad a'r broses asesu. Roedd tystiolaeth nad oedd gofalwyr yn cael gwybod yn llawn am eu hawliau gan yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, yn ogystal â diffyg gwybodaeth glir am y broses asesu, am rôl darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd (lle bo'n berthnasol), am yr hyn y gallai gofalwyr ei ddisgwyl gan yr asesiad ac am sut y gellir cefnogi gofalwyr, yn dilyn asesiad. Gwelsom hefyd dystiolaeth o anghysondeb yn y ffordd y cyfeiriwyd at asesiadau o anghenion gofalwyr, a fyddai'n debygol o waethygu dryswch defnyddwyr y gwasanaeth.

Canfuom hefyd diffygion yn y ffordd yr oedd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn monitro pa gymunedau a gafodd gymorth. Mae angen i'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt fod yn ymwybodol o'u dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus ac mae angen gwella'r broses o gasglu data cydraddoldeb. Gallai trefniadau gwell o gofnodi data cydraddoldeb gynorthwyo awdurdodau lleol i nodi grwpiau o ofalwyr nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd a sicrhau bod y grwpiau amrywiol o bobl sy'n darparu gofal i anwyliaid yn weladwy ac nad ydynt o dan anfantais.

- **Y graddau y mae gofal seibiant ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys faint o amrywiad sydd ar draws y rhanbarthau.**

  Ni ystyriodd ein hymchwiliad ofal seibiant. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod cwblhau asesiad o anghenion gofalwr yn rhagofyniad ar gyfer gwneud cais am ofal seibiant. Yn wyneb y diffygion yn y broses o weinyddu asesiadau o anghenion gofalwyr a nodwyd yn ein hymchwiliad, yn ogystal â'r gyfran isel iawn o'r boblogaeth o ofalwyr yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt a gafodd asesiadau o'u hanghenion, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gofal seibiant ar gael ar hyn o bryd i ychydig iawn o'r gofalwyr di-dâl sydd ei angen mewn gwirionedd.

- **I ba raddau y mae'r galw am wasanaethau cymorth i ofalwyr yn cael ei asesu ac yn cael sylw, a, beth yw lefel yr anghenion sydd heb eu diwallu ar hyn o bryd.**

  Cyfeiriwn y Pwyllgor at ganfyddiadau ein hymchwiliad, a amlinellwyd uchod.

- **Rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddarparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, ac effeithiolrwydd arferion comisiynu gwasanaethau ar hyn o bryd.**

  Ni ystyriodd ein hymchwiliad rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn benodol. Fodd bynnag, gwnaethom danlinellu bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd mewn perthynas â gofalwyr.

  Mae angen gwella'r broses o adnabod gofalwyr

  - i'w cefnogi drwy ymyrraeth gynnar ac atal

- i'w cynorthwyo yn eu rôl ofalu, ac
- i atal gofalwyr rhag cyrraedd pwynt argyfwng cyn ceisio cymorth gan yr awdurdod lleol.

Nid rôl awdurdodau lleol yn unig yw nodi gofalwyr yn gynnar. Mae cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â gofalwyr a'u hawliau yn hanfodol a dylid eu cryfhau.

Felly, un o'n hargymhellion oedd camau gweithredu i wella cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, ysbytai a fferyllfeydd.

- **Y camau gweithredu sydd eu hangen i wella gweithrediad darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer gofalwyr di-dâl (gan gynnwys Asesiadau Gofalwyr a chynlluniau cymorth).**

  Cyfeiriwn y Pwyllgor at ein hargymhellion, a grynhoir uchod ac sydd ar gael yn llawn yn yr adroddiad 'A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?'.

## Sylwadau cloi

Hyderwn y bydd y gwersi a'r argymhellion a amlygwyd yn ein hadroddiad 'A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?' o gymorth, nid yn unig i'r 4 Awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt, ond i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Rydym wrthi'n monitro'r gydymffurfiaeth â'n hargymhellion.



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Medi 2025